ATODLEN 2

Monitro

# RHAN 1

## Monitro drwy wiriadau

### Samplu

**1.**—(1) Rhaid i awdurdod lleol ymgymryd â monitro drwy wiriadau yn unol â'r Rhan hon.

(2) Ystyr monitro drwy wiriadau yw samplu ar gyfer pob paramedr yn Nhabl 1 yn yr amgylchiadau a restrir yn y tabl hwnnw er mwyn—

(a) penderfynu a yw'r dŵr yn cydymffurfio â'r crynodiadau neu werthoedd yn Atodlen 1;

(b) darparu gwybodaeth am ansawdd organoleptig a microbiolegol y dŵr; ac

(a) penderfynu pa mor effeithiol fu'r driniaeth a roddwyd i'r dŵr, gan gynnwys y diheintio.

**Tabl 1**

**Monitro drwy wiriadau**

| *Paramedr* | *Amgylchiadau* |
|---|---|
| Alwminiwm | Pan ddefnyddir fel clystyrydd neu pan fo'r dŵr yn tarddu o ddyfroedd wyneb, neu y dylanwedir arno gan ddyfroedd wyneb |
| Amoniwm | Ym mhob cyflenwad |
| *Clostridium perfringens* (gan gynnwys sborau) | Pan fo'r dŵr yn tarddu o ddyfroedd wyneb, neu y dylanwedir arno gan ddyfroedd wyneb |
| Bacteria colifform | Ym mhob cyflenwad |
| Cyfrifau cytrefi | Ym mhob cyflenwad |
| Lliw | Ym mhob cyflenwad |
| Dargludedd | Ym mhob cyflenwad |
| *Escherichia coli (E. coli)* | Ym mhob cyflenwad |
| Crynodiad ïonau hydrogen | Ym mhob cyflenwad |
| Haearn | Pan ddefnyddir fel clystyrydd neu pan fo'r dŵr yn tarddu o ddyfroedd wyneb, neu y dylanwedir arno gan ddyfroedd wyneb |
| Manganîs | Pan fo'r dŵr yn tarddu o ddyfroedd wyneb, neu y dylanwedir arno gan ddyfroedd wyneb |
| Nitrad | Pan arferir cloramineiddio |
| Nitraid | Pan arferir cloramineiddio |
| Arogl | Ym mhob cyflenwad |

| *Paramedr* | *Amgylchiadau* |
|---|---|
| *Pseudomonas aeruginosa* | Yn achos dŵr mewn poteli neu gynwysyddion yn unig |
| Blas | Ym mhob cyflenwad |
| Cymylogrwydd | Ym mhob cyflenwad |